# Sut i wneud Creision Dail Poethion

**Byddwch angen:**

Hidlwr/powlen i'w golchi nhw
Ffynhonnell o wres
Padell addas (padell ffrio yn ddelfrydol)
Fforc i'w troi nhw drosodd
Brwsh i orchuddio'r dail poethion â'r cymysgedd
Olew coginio
Surop (Masarn neu Fedw)



**Offer pellach os ydych yn defnyddio tân agored fel ffynhonnell o wres**

Maneg sy'n gwrthsefyll gwres neu faneg bopty gyffelyb
Gril/rhywbeth pwrpasol i osod eich padell arno

**Cam 1.** Gwnewch gymysgedd mewn powlen fechan yn cynnwys traean o surop a dau draean o olew.

**Cam 2.** Gwresogwch eich padell ac ychwanegwch ychydig o olew coginio. Wrth wyro ongl y badell, bydd yr olew yn rhedeg yn araf pan fydd yn oer, ond yn fwy cyflym pan fydd yn boeth.

**Cam 3.** Pan fo'r olew yn boeth, cymysgwch yr olew/surop ac arllwyswch ychydig i'r badell.
Yn syth ar ôl hyn, rhowch y dail poethion i mewn yn y cymysgedd sydd yn y badell.

**Cam 4.** Defnyddiwch y fforc i'w gwasgaru fel nad ydynt yn cyffwrdd â'i gilydd - mae'n bwysig bod ganddynt ddigon o le i golli lleithder a chrimpio.

**Cam 5.** Os bydd angen, defnyddiwch y brwsh i orchuddio'r dail â mwy o olew/surop, ac yna, ar ôl iddynt ddechrau troi'n frown, trowch y dail drosodd.

**Cam 6.** Pan fydd y creision wedi troi'n frown ar y ddwy ochr, tynnwch nhw oddi ar y gwres a'u rhoi mewn powlen. Os ydynt yn seimlyd, gosodwch nhw mewn lliain er mwyn sugno'r olew ychwanegol.

**Cam 7.** Ychwanegwch ychydig o halen, a mwynhewch! Gallwch arbrofi gydag ychwanegiadau eraill, megis paprica neu tsilis fflawiog.